



Ardal Weinidogaeth
Bro Gwydyr
Ministry Area

Betws-y-Coed, Capel Curig,
Dolgarrog, Dolwyddelan,
Llanrhyechwyn,
Penmachno, Trefriw

Croeso Gynnes iawn i bawb

A very warm welcome to all

Awst 2026 /August 2026 Newsletter



Neges gan ein Ficer, Stuart... / A Message from our Vicar, Stuart...

Y mis diwetha ges i'r ffrainc enfawr o gael rhoi fy nhraed ar Ynys Enlli o'r diwedd. Er mai rhyw awr yn unig gawson ni yno oherwydd y llanw a'r daith yn ôl, roedd hynny'n ddigon o amser i grwydro ac i fyfyrion ar y lle arbennig yma sy'n gyrchfan pererindod.

Ro'n i'n arfer camddyfynnu cerdd R. S. Thomas, *Pererindod*, wrth sôn am Ffordd Bererinion Gogledd Cymru: "*Mae yna ynys nad oes modd mynd iddi.*" Ond erbyn hyn mae'r llinell nesaf yn wir amdana i hefyd – "*ond mewn cwch bach.*" Cwch bach iawn oedd o hefyd, yn ein cludo'r metrau olaf dros y dŵr at y lan, yng nghanol bloedd y morloi a sgrech y

Last month I had the immense privilege to finally set foot on Ynys Enlli (Bardsey Island). Whilst we were only able to be there for an hour due to the tide and the return journey, it was enough of an opportunity to walk and reflect on this pilgrimage destination.

I used to mis-quote RS Thomas' poem pilgrimage when speaking of the North Wales Pilgrim Way 'There is an island there is no going to.' Except that the very next line is now also true for me - 'except by small boat'. It was a very small boat in which we made the final meters across to the shore amidst the cries of the seals and oystercatchers. A fitting end to a long pilgrimage.

pibyddion y traeth. Diwedd addas i bererindod hir.

Y daith sy'n gwneud y bererindod, ond cyrraedd y pen taith sy'n rhoi cychwyn i'r daith nesaf.

I lawer, Awst ydy mis gwyliau, a bydd llawer unwaith eto'n gwneud eu pererindod i'n cornel ni o Eryri eleni – yn enwedig y rheini sydd â phlant. Ac mae hynny'n golygu tymor prysur iawn i'r rhai sy'n gwasanaethu'r ymwelwyr.

Cyn i'n cymdeithas amaethyddol droi'n un ddiwydiannol, gyda gwyliau sefydlog i lawer ohonon ni, roedd dechrau Awst yn arwydd fod y gwaith caled yn dechrau.

Dyma dymor cynhaeaf y gwenith – a dyna pam rydyn ni'n dal i ddathlu



Gŵyl Fair y Bara, neu Lammas, gyda theisen neu dorth gartref. Os oedd y cynhaeaf yn dda, roedd bwyd y gaeaf yn saff. Os oedd o'n wael, roedd gaeaf caled o'n blaenau.

Mae byw ar ynys yn gwneud rhywun hyd yn oed yn fwy dibynnol ar droeon y tymhorau, ac mae hynny'n arbennig o wir ar Enlli oherwydd y fordaith drosodd. Yn y rhydydig amser gawson ni ar yr ynys, ces i fy atgoffa mor fregus ydy ein bywydau mewn gwirionedd, a pha mor llwyr rydyn ni angen ein gilydd – yn lleol ac ar draws y byd.

It is the journey which makes the pilgrimage, but arriving at the destination allows the next journey to begin.

August is in many traditions holiday time and many will make their pilgrimage to our corner of Eryri once again this year, particularly those with children. And that makes it a season of hard work for those who are in service to the visitors.

Before our agrarian culture gave way to an industrial one with, for many, fixed holiday periods in the agricultural year the beginning of August marks the start of hard work. It is the wheat harvest season – this is why we still celebrate Lammas with a home baked loaf of bread. If the harvest was good, then food for the winter months was secure. If a poor harvest, then the winter was likely to be harsh.

Island living is more susceptible to the vagaries of the seasons and Enlli in particular due to the crossing. The short time spent on this Island reminded me how fragile our existence really is and how completely we are needful of each other, locally and globally.



Edrych Ymlaen yn yr Esgobaeth

Mae'r Esgob etholedig wedi rhannu cynlluniau pwysig wrth iddi baratoi i ymgymryd â'i rôl newydd a dechrau pennod newydd ym mywyd yr Esgobaeth.

Dros yr haf, bydd Manon yn parhau i ganolbwyntio ar ei chyfrifoldebau yn y Gadeirlan, gan gynnwys cwblhau'r gwaith gyda'r Bwrdd Goruchwylio a chymeradwyo'r ymateb i argymhellion yr adolygiad diweddar. O 1 Medi ymlaen, bydd y Canon Tracy Jones yn gwasanaethu fel Deon Dros Dro, gyda chefnogaeth tîm y Gadeirlan a chydweithwyr ar y Cabidwl.



Bydd y broses o benodi Deon newydd yn dechrau ar unwaith drwy broses recriwtio agored. Bydd yr Esgobaeth yn chwilio am glerig sy'n gallu arfer gweinidogaeth bregethu a bugeiliol hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ynghyd â'r sgiliau gweinidogaethol, arweinyddol a strategol arferol. Mae clerigion Cymraeg eu hiaith hefyd wedi cael eu gwahodd i gyfarfod galwedigaethol yn y Ddeoniaeth ar 22 Gorffennaf.

Wrth edrych ymhellach ymlaen, mae'r Esgob newydd yn gobeithio ymweld â phob Bro dros y deunaw mis nesaf. Bydd yr ymweliadau hyn yn cynnig cyfleoedd i gryfhau perthnasoedd, gwrando ar gymunedau lleol ac annog

Looking Ahead in the Diocese

The Bishop-designate has shared important plans as she prepares to take up her new role and begin a new chapter in the life of the Diocese.

Over the summer, Manon will continue focusing on her responsibilities at the Cathedral, including completing work with the Oversight Board and signing off the response to the recent review recommendations. From 1 September, Canon Tracy Jones will serve as Acting Dean, supported by the Cathedral team and colleagues on Chapter.

The process of appointing a new Dean will begin immediately through an open recruitment process. The Diocese will be seeking a cleric who can exercise a confident preaching and pastoral ministry in both Welsh and English, alongside the usual ministerial, leadership and strategic skills. Welsh-speaking clergy have also been invited to a vocational gathering at the Deanery on 22 July.

Looking further ahead, the new Bishop hopes to visit every Bro over the next eighteen months. These visits will provide opportunities to strengthen relationships, listen to local communities and encourage vocations to both lay and ordained ministry.

The annual Diocesan Conference will be held in October, bringing people together for worship, celebration, future planning, and discussion of important governance and financial matters arising from the recent Governance Review.

galwedigaethau i weinidogaeth leyg ac ordeiniedig.

Cynhelir Cynhadledd flynyddol yr Esgobaeth ym mis Hydref, gan ddod â phobl ynghyd ar gyfer addoli, dathlu, cynllunio ar gyfer y dyfodol, a thrafod materion llywodraethu ac ariannol pwysig sy'n codi o'r Adolygiad Llywodraethu diweddar.

Dyddiadau Allweddol

22 Gorffennaf, 3.00–5.00pm: Cyfarfod galwedigaethol i glerigion Cymraeg eu hiaith yn y Ddeoniaeth, ac yna Gosber am 5.15pm

9 Medi: Synod Gysegredig yng Nghadeirlan Casnewydd

12 Medi: Ordeinio'n Esgob yng Nghadeirlan Casnewydd

19 Medi, 2.00pm: Gosod yn Esgob yng Nghadeirlan Bangor

10 Hydref, 10.00am–4.00pm: Cynhadledd yr Esgobaeth yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog

Key Dates

22 July, 3.00–5.00pm: Vocational gathering for Welsh-speaking clergy at the Deanery, followed by Evensong at 5.15pm.

9 September: Sacred Synod at Newport Cathedral.

12 September: Ordination as Bishop at Newport Cathedral.

19 September, 2.00pm: Installation at Bangor Cathedral.

10 October, 10.00am–4.00pm: Diocesan Conference at Ysgol Eifionydd, Porthmadog.



Lle Croesawgar ar gyfer Eich Achlysur Arbennig

Ydych chi'n chwilio am leoliad fforddiadwy, croesawgar a hyblyg ar gyfer eich digwyddiad nesaf?

Mae neuadd ein heglwys yn Eglwys y Santes Fair, Betws-y-Coed, ar gael i'w llogi ar gyfer amrywiaeth eang o achlysuron. P'un a ydych yn cynllunio cynulliad bach neu ddigwyddiad cymunedol mwy, byddem yn falch iawn o'ch helpu i greu'r lleoliad cywir.

A Welcoming Space for Your Special Occasion

Are you looking for an affordable, welcoming and flexible venue for your next event?

Our church hall at St Mary's in Betws-y-Coed is available to hire for a wide range of occasions.

Whether you are planning a small gathering or a larger community event, we would be delighted to help you create the right setting.

AT PENMACHNO CHURCH

we have a weekly

COFFEE Morning

EVERY WEDNESDAY MORNING

10.30 - 11.45 AM



PROCEEDS GO TO
OUR M.A. CHARITIES

DPJ
FOUNDATION

Raising HOPE,
Transforming LIVES

1

**IMPACT
ONE**

Good coffee. Great company. Making a difference. ♥

**Regular, weekly events
where ALL are welcome to
attend!**



Ardal Weinidogaeth
Bro Gwydyr
Ministry Area

Bro Gwydyr PRAYER GROUP

A simple space to
pause, pray and be together



EVERY
MONDAY



7:00PM



PLAS PENAEIDROCH
or online

Join us for a quiet, informal time of prayer and fellowship.
All are welcome—whether you come regularly,
occasionally, or just want to try something new.

WE PRAY TOGETHER FOR:



The future
seeking God's guidance



Provision
praying for the needs
of our ministry



People
that individuals may come
to know God's love and
direction in their lives

You can take part in
whatever way feels right
for you—
silently or aloud, in person
or online.

Come as you are.
You will be very welcome. ♥



For online joining details
or more information,
please contact:



office@penaeldroch.co.uk



01690 750316

We'll meet again!

You are invited to meet for a coffee
and a chat at **The Royal Oak Hotel**
every 1st Tuesday of each month
10:30am - 12 noon

Everyone is very welcome!

Betws-y-Coed

**A monthly meet up
for all to attend –
ALL welcome!**

Newyddion gan Gyngor Ardal Weinidogaeth

Cyfarfu Cyngor Ardal Weinidogaeth Bro Gwydyr yn Eglwys y Santes Fair, Betws-y-Coed, ar 14 Gorffennaf. Dechreuodd y cyfarfod gyda myfyrdod ar bwysigrwydd rhoi croeso cynnes i'r llu o ymwelwyr sy'n dod i'n heglwysi a'n cymunedau, yn enwedig yn ystod prysurdeb tymor gwyliau mis Awst.

Parhaodd diogelu yn flaenoriaeth allweddol. Trafododd yr aelodau hyfforddiant niwroamrywiaeth diweddar a phwysigrwydd cydnabod nad yw rhai rhwystrau ac anghenion ychwanegol bob amser yn amlwg ar unwaith.

Derbyniodd y Cyngor ddiweddariadau gan yr Esgobaeth, gan gynnwys penodi Manon yn Esgob newydd Bangor. Cynhelir ei hordeiniad esgobol yng Nghadeirlan Casnewydd ar 12 Medi, ac yna ei sefydlu yng Nghadeirlan Bangor ar 19 Medi.

Adolygwyd sefyllfa ariannol yr Ardal Weinidogaeth a gofynnwyd cwestiynau perthnasol. Trefnir sesiwn friffio fer ar gyllid cyn y cyfarfod nesaf er mwyn helpu'r aelodau i ddehongli adroddiadau yn y dyfodol gyda mwy o hyder.

Mae gweithgarwch cenhadol calonogol yn parhau ar draws Bro Gwydyr. Adroddodd Penmachno am gymdeithas gref drwy ei fore coffi wythnosol, addoli rheolaidd, codi arian at elusen ac ymgysylltu â'r gymuned. Adroddwyd

News from the Ministry Area Council

The Bro Gwydyr Ministry Area Council met at St Mary's Church, Betws-y-Coed, on 14 July. The meeting began with a reflection on the importance of warmly welcoming the many visitors who come to our churches and communities, especially during the peak holiday season of August.

Safeguarding remained a key priority. Members discussed recent neurodiversity training and the importance of recognising that some barriers and additional needs may not be immediately visible.

The Council received updates from the Diocese, including the appointment of Manon as the new Bishop of Bangor. Her episcopal ordination will take place at Newport Cathedral on 12 September, followed by her installation at Bangor Cathedral on 19 September.

The Ministry Area's financial position was reviewed and pertinent questions asked. A short finance briefing will be arranged before the next meeting to help members interpret future reports more confidently.

Encouraging mission activity continues across Bro Gwydyr. Penmachno reported strong fellowship through its weekly coffee morning, regular worship, charity fundraising and community engagement. The recent "Treasures Of..." open day in Trefriw was also reported to have been very successful

hefyd fod y diwrnod agored diweddar “Trysorau...” yn Nhrefrhiw wedi bod yn llwyddiannus iawn, a rhennir rhagor o fanylion yn y cyfarfod nesaf.

Cymeradwywyd y cynlluniau ar gyfer Dathliad Deng Mlynedd Bro Gwydyr, a gynhelir yng Ngwesty’r Glan Aber, Betws-y-Coed, ddydd Sadwrn 17 Hydref, rhwng 2pm a 5pm. Bydd tocynnau’n costio £15, gan gynnwys bwffe te prynhawn llawn.

Cymeradwyodd y Cyngor hefyd benodi Snowdonia Fire Protection, cefnogodd barhau i wneud cynnydd tuag at wobrau Eco Eglwys a thrafododd ymdrechion i leihau plastig untro. Bydd Bro Gwydyr hefyd yn cynnal stondin yn Nathliad Gweinidogaeth Leyg yng Nghadeirlan Bangor ar 5 Medi.

and more details will be shared at the next meeting.

Plans were approved for Bro Gwydyr’s **10-Year Celebration**, which will take place at the Glan Aber Hotel, Betws-y-Coed, on **Saturday 17 October, from 2pm to 5pm**. Tickets will cost **£15**, including a full afternoon tea buffet.

The Council also approved the appointment of Snowdonia Fire Protection, supported continued progress towards Eco Church awards and discussed efforts to reduce single-use plastics. Bro Gwydyr will also host a stall at the Lay Ministry Celebration at Bangor Cathedral on 5 September.

Sant Tydfil: Tyst Cymreig i’r Ffydd

Ar **23 Awst**, mae’r Eglwys yng Nghymru yn cofio Sant Tydfil, merthyr Cristnogol cynnar o Gymru y mae ei henw wedi’i wau’n gadarn i hanes a hunaniaeth Cymru.

Yn ôl traddodiad, credir i Tydfil fyw yn ystod y bumed ganrif, ar adeg pan oedd Cristnogaeth yn ymsefydlu’n raddol ledled Cymru. Yn ôl traddodiad Cymreig, roedd hi’n un o ferched y Brenin Brychan o Frycheiniog, rheolwr a gofir am ei deulu mawr, yr oedd llawer ohonynt yn gysylltiedig â’r Eglwys Gristnogol gynnar.

Cysegrodd Tydfil ei hun i fywyd o ffydd Gristnogol, gweddi a gwasanaeth. Dywed traddodiad wrthym iddi fyw

St Tydfil: A Welsh Witness of Faith

On **23 August**, the Church in Wales remembers **St Tydfil**, an early Welsh Christian martyr whose name remains firmly woven into the history and identity of Wales.

Tydfil is traditionally believed to have lived during the fifth century, at a time when Christianity was gradually becoming established throughout Wales. According to Welsh tradition, she was one of the daughters of King Brychan of Brycheiniog, a ruler remembered for his large family, many of whom became associated with the early Christian Church.

Tydfil devoted herself to a life of Christian faith, prayer and service. Tradition tells

ymhlith cymuned Gristnogol fechan yn yr ardal a fyddai'n ddiweddarach yn cael ei hadnabod fel Merthyr Tudful. Daeth ei bywyd i ben yn dreisgar pan gafodd ei lladd oherwydd ei ffydd, yn ôl traddodiad tua'r flwyddyn 430. Er nad yw'r union fanylion hanesyddol yn sicr, mae ei stori wedi parhau fel enghraifft o ddewrder, defosiwn a ffyddlondeb yn wyneb perygl.

Mae'r gair Cymraeg **merthyr** yn golygu "martyr", ac felly gellir deall yr enw **Merthyr Tudful** fel "Tudful y Ferthyr". Mae'r dref, felly, yn cario ei thystiolaeth o fewn ei henw ei hun. Credir i'r anheddiad ddatblygu o amgylch y lloc crefyddol a gysylltir â hi, tra bod Eglwys Sant Tydfil yn parhau i gadw ei chof yn fyw. (*Ymweld â Merthyr*)

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn coffáu Tydfil ar 23 Awst ac yn diolch am y nerth a gafodd i aros yn ffyddlon drwy ddioddefaint a marwolaeth. Mae'r weddi benodedig yn gofyn y bydd Cristnogion heddiw hefyd yn cael eu cryfhau i gwblhau eu taith ffydd eu hunain gyda dyfalbarhad a gobaith. (*Yr Eglwys yng Nghymru*)


I ni, nid hanes o'r gorffennol pell yn unig yw stori Sant Tydfil. Mae'n ein hatgoffa fod ffydd yn aml yn cael ei mynegi drwy ymroddiad tawel, dewrder a gwasanaeth o fewn ein cymunedau ein hunain. Ni fydd y rhan fwyaf ohonom byth yn cael

us that she lived among a small Christian community in the area that would later become Merthyr Tydfil. Her life was brought to a violent end when she was killed for her faith, traditionally around the year 430. Although the precise historical details are uncertain, her story has endured as an example of courage, devotion and faithfulness in the face of danger.

The Welsh word **merthyr** means "martyr", and so the name **Merthyr Tydfil** can be understood as "Tydfil the Martyr". The town therefore carries her witness within its very name. The settlement is believed to have developed around the religious enclosure associated with her, while St Tydfil's Church continues to preserve her memory. ([Visit Merthyr](#))

The Church in Wales commemorates Tydfil on 23 August and gives thanks for the strength she received to remain faithful through suffering and death. The appointed prayer asks that Christians today may also be strengthened to complete their own journey of faith with perseverance and hope. ([Church in Wales](#))

For us, St Tydfil's story is not simply an account from the distant past. It reminds us that faith is often expressed through quiet commitment, courage and service within our own communities. Most of us will never be asked to face the dangers experienced by the early Christian martyrs, but we are still called to live faithfully: welcoming others, caring for those in need, speaking out against



ein galw i wynebu'r peryglon a wynebodd y merthyron Cristnogol cynnar, ond rydym yn dal i gael ein galw i fyw'n ffyddlon: gan groesawu eraill, gofalu am y rhai mewn angen, codi ein llais yn erbyn anghyfiawnder a dangos cariad Crist drwy ein gweithredoedd bob dydd.

Wrth inni gofio Sant Tydfil fis Awst hwn, boed i'w hesiampl ein hannog i aros yn gadarn yn ein ffydd ac yn hael yn ein gwasanaeth. Mae ei bywyd yn ein hatgoffa y gall hyd yn oed un tyst ffyddlon adael etifeddiaeth sy'n parhau i lunio cymuned ganrifoedd lawer yn ddiweddarach.

injustice and showing Christ's love through our everyday actions.

As we remember St Tydfil this August, may her example encourage us to remain steadfast in faith and



generous in service. Her life reminds us that even one faithful witness can leave a legacy that continues to shape a community many centuries later.

Eglwys Eco: Gofalu am y Greadigaeth a'n Cymuned

Mae Eglwys Eco yn gynllun gwobrwyo a gynhelir gan A Rocha UK, elusen Gristnogol sydd wedi ymrwymo i warchod ac adfer y byd naturiol. Mae'r rhaglen yn helpu eglwysi, capeli ac eglwysi cadeiriol i roi gofal am greadigaeth Duw wrth wraidd eu haddoliad, eu gweithgareddau a'u penderfyniadau bob dydd.

Mae eglwysi'n cwblhau arolwg ar-lein sy'n ymdrin â phum maes pwysig o fywyd yr eglwys: addoli ac addysgu; adeiladau ac ynni; tir a natur; ymgysylltu â'r gymuned ac â'r byd; a ffordd o fyw. Yn dibynnu ar eu cynnydd yn y meysydd hyn, gall eglwysi dderbyn Gwobr Eglwys Eco Efydd, Arian neu Aur.

Eco Church: Caring for Creation and Our Community

Eco Church is an award scheme run by A Rocha UK, a Christian charity committed to protecting and restoring the natural world. The programme helps churches, chapels and cathedrals place care for God's creation at the heart of their worship, activities and everyday decisions.

Churches complete an online survey covering five important areas of church life: **worship and teaching; buildings and energy; land and nature; community and global engagement; and lifestyle**. Depending on their progress across these areas, churches can receive a Bronze, Silver or Gold Eco Church Award.

Bro Gwydyr already has much to celebrate. One of our churches has achieved a **Silver Eco Church Award**,

Mae gan Fro Gwydyr lawer i'w ddathlu eisoes. Mae un o'n heglwysi wedi ennill Gwobr Eglwys Eco Arian, tra bo pob un o'n heglwysi eraill yn dal Gwobrau Efydd. Mae hyn yn dangos ymrwymiad ar y cyd ar draws yr Ardal Weinidogaeth i ofalu am yr amgylchedd ac i ddefnyddio ein hadeiladau a'n tir yn gyfrifol.

Gallwn fod yn arbennig o falch o Eglwys Sant Gwyddelan yn Nolwyddelan, sef yr eglwys gyntaf yng Nghymru i dderbyn achrediad Eglwys Eco. Rhoddodd y cyflawniad arwyddocaol hwn Sant Gwyddelan a Bro Gwydyr ar flaen y gad yn y mudiad Eglwys Eco yng Nghymru.

Nid yw bod yn Eglwys Eco o reidrwydd yn gofyn am brosiectau drud na newidiadau dramatig. Mae'n ymwneud â chydabod yr hyn rydym eisoes yn ei wneud yn dda a nodi'r camau nesaf y gellir eu cyflawni. Yn ein heglwysi a'n neuaddau, gallai hyn gynnwys monitro'r defnydd o ynni, lleihau gwresogi a goleuo diangen, cyfyngu ar blastig untro a dewis cynhyrchion glanhau ac arlwyio sy'n gyfrifol yn amgylcheddol.

Mae ein mynwentydd hefyd yn lleoedd gwerthfawr i natur. Yn ogystal â bod yn fannau heddychlon a pharchus i ymwelwyr, gallant ddarparu cynefinoedd i flodau gwyllt, pryfed, adar a bywyd gwyllt arall. Gall ardaloedd o laswellt hirach, plannu rhywogaethau brodorol, blychau adar ac ystlumod, gwestai pryfed ac arolygon bywyd gwyllt oll helpu i gynnal bioamrywiaeth leol.

Mae Eglwys Eco hefyd yn ymestyn y tu hwnt i adeiladau ein heglwysi. Gall

while all our other churches hold **Bronze Awards**. This demonstrates a shared commitment across the Ministry Area to caring for the environment and using our buildings and land responsibly.

We can be especially proud of **St Gwyddelan's Church in Dolwyddelan**, which was the first church in Wales to receive an Eco Church accreditation. This significant achievement placed both St Gwyddelan's and Bro Gwydyr at the forefront of the Eco Church movement in Wales.



Being an Eco Church does not necessarily require expensive projects or dramatic changes. It involves recognising what we already do well and identifying manageable next steps. Within our churches and halls, this might include monitoring energy use, reducing unnecessary heating and lighting, limiting single-use plastics and choosing environmentally responsible cleaning and catering products.

Our churchyards are also valuable places for nature. Alongside being peaceful and respectful spaces for visitors, they can provide habitats for wildflowers, insects, birds and other wildlife. Areas of longer grass, native planting, bird and bat boxes, bug hotels

ymgyrchoedd casglu sbwriel cymunedol, sgysiau amgylcheddol, prosiectau garddio a phartneriaethau ag ysgolion a grwpiau lleol ddod â phobl ynghyd. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog gwirfoddoli, yn lleihau unigedd ac yn rhoi ymdeimlad cyffredin o bwrpas i bobl o bob oed.

Mae Bro Gwydyr bellach yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol, busnesau a grwpiau cymunedol er mwyn datblygu'r gwaith hwn ymhellach ar draws ein hardal. Drwy rannu syniadau, gwybodaeth, adnoddau a chymorth ymarferol, gallwn gyflawni llawer mwy gyda'n gilydd a helpu i ofalu am y dirwedd ryfeddol a'r cymunedau rydym oll yn eu gwerthfawrogi.

Gwahoddir yn gynnes unrhyw sefydliad neu fusnes lleol sydd â diddordeb mewn gweithio gyda ni, cefnogi prosiect amgylcheddol neu ddysgu rhagor am ein gweithgareddau Eglwys Eco i gysylltu â Lloyd, Gweinyddwr Ardal Weinidogaeth Bro Gwydyr.

Nid yw Eglwys Eco yn ymwneud â chyflawni perffeithrwydd ar unwaith. Mae'n daith barhaus o fyfyrion a gwella. Drwy barhau â'r gwaith hwn gyda'n gilydd, gallwn ddarparu enghraifft weladwy o stiwardiaeth Gristnogol: addoli Duw, caru ein cymdogion a diogelu ein cymunedau a'n tirweddau hardd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

and wildlife surveys can all support local biodiversity.

Eco Church also reaches beyond our church buildings. Community litter picks, environmental talks, gardening projects and partnerships with schools and local groups can bring people together. These activities encourage volunteering, reduce isolation and give people of all ages a shared sense of purpose.

Bro Gwydyr is now looking to work in partnership with local organisations, businesses and community groups to develop this work further across our area. By sharing ideas, knowledge, resources and practical support, we can achieve much more together and help care for the remarkable landscape and communities we all value.

Any local organisation or business interested in working with us, supporting an environmental project or learning more about our Eco Church activities is warmly invited to contact **Lloyd, the Bro Gwydyr Ministry Area Administrator**.

Eco Church is not about achieving perfection immediately. It is an ongoing journey of reflection and improvement. By continuing this work together, we can provide a visible example of Christian stewardship: worshipping God, loving our neighbours and preserving our beautiful communities and landscapes for future generations.

Gwasanaethau Mis Awst yn ein Heglwyysi / August Services at our Churches

	Dydd/Day	Dolwyddelan	Dolgarrog	Betws-y-Coed	Penmachno	Eraill/Other
Awst 2 2 August	Gŵyl Awst Lammas		09.30 Eucharist SE	11.00 Sêr Bach SE		Worship in the wild EP
Awst 9 9 August	Y Drindod x Trinity x	09.30 Eucharist SE		11.00 Eucharist SE	11.00 Morning Prayer SW	8pm Trefriw EP
Awst 16 16 August	Y Drindod xi Trinity xi		09.30 Eucharist SE	11.00 Eucharist SE		
Awst 23 (22) (22) 23 August	Gwyddelan Sant Saint Gwyddelan	09.30 Eucharist SE		11.00 Morning Prayer SW	11.00 Eucharist SE	
Awst 30 30 August	Y Drindod xiii Trinity xiii		09.30 Morning Prayer SW	11.00 Morning Prayer KW		

Cadwch mewn Cysylltiad

**Oes gennych chi newyddion,
digwyddiad neu stori yr hoffech ei
rhannu yn rhifyn nesaf Cylchlythyr Bro
Gwydyr?**

Rydym bob amser yn falch o dderbyn
newyddion o'n heglwyysi, ein cymunedau
a'n sefydliadau lleol.

Anfonwch eich cyfraniadau, lluniau a
manylion digwyddiadau at Lloyd,
Gweinyddwr Ardal Weinidogaeth Bro
Gwydyr:

Keep in Touch

**Do you have news, an event or a story
you would like to share in the next edition
of the Bro Gwydyr Newsletter?**

We are always pleased to receive news
from our churches, communities and local
organisations.

Please send contributions, photographs
and event details to Lloyd, Bro Gwydyr
Ministry Area Administrator:

See below for contact details.

Parish Priest / Offeiriaid y Plwyf: Rev'd Stuart Elliott
Y Ficerdy, Vicarage Road, Betws – y – Coed. LL24 0AD



01690 710313



stuartelliott@cinw.org.uk

Administrator: Lloyd Mason-Parish



07715570708



lloyd@brogwydyr.cymru